north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**20/03/2020**

**Teitl:** Cyllideb 2020/21

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb 2020/21 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae dau senario wedi'u cynnwys:-

- Senario 1 - Cyllideb 2020/21 heb Arian Grant ESF (Atodiad 1a)
- Senario 2 - Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b).

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**2.1 Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 heb Arian Grant ESF (Atodiad 1a).**

**2.2 Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b) os / pan derbynnir cymeradwyaeth ffurfiol am y grant.**

**2.3 Yn gofyn i'r Bwrdd roi yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau (Senario 1 a 2) pe bai angen hynny er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cynllun Twf terfynol.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Gosod y gyllideb arfaethedig fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

3.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

3.3 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Y prif newidiadau rhwng cyllideb gwariant 2019/20 a chyllideb gwariant 2020/21 yw cynnydd yn y costau staffio a gostyngiad yn y gyllideb allanol ar gyfer cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau.

4.2 Yng nghyllideb 2020/21, nid oes tybiaeth wedi'i wneud y bydd Incwm Grant y Cais Twf wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn, a phe byddai unrhyw incwm yn cael ei dderbyn yn ystod y chwarter olaf, byddwn yn ymdrin â hynny ar y pryd.

4.3 Yn ogystal â’r Gyllideb Sylfaenol, bydd angen trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir yn ystod y flwyddyn, i ariannu gwariant dan y penawdau canlynol yn bennaf:-

- "Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus" - ar gyfer y wefan, brandio a'r strategaeth cyfathrebu.
- "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" - datblygu'r Achosion Busnes Llawn sydd eu hangen i gyrraedd Cynllun Terfynol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

4.4 Ar hyn o bryd, mae'r cais grant ESF, sy'n seiliedig ar gostau staff, yng nghamau olaf y broses gymeradwyo a disgwylir penderfyniad cyn diwedd mis Mawrth 2020. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i sicrhau y cyflawnir rhaglen waith y Swyddfa Rhaglen o fewn yr amserlen gyfredol.

4.5 Os na fydd y cais grant ESF yn llwyddiannus, bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cyflwyno adroddiad ar wahân i'r Bwrdd dros y misoedd nesaf, gyda chynnig diwygiedig gyda'r opsiynau posib a'r ffynonellau ariannu posib er mwyn cwblhau rhaglen waith y Swyddfa Rhaglen ar amser. Gall hyn olygu cyfraniadau ychwanegol gan y partneriaid.

4.6 Yn sgil y farn gryf a ddatganwyd gan y Grŵp Gweithredol ar 6 Mawrth 2020 i gyflawni’r Cynllun Twf yn amserol, mae’r Cyfarwyddwr Rhaglen a’r Rheolwr Gweithrediadau wedi gofyn am yr hawl i ychwanegu cyllideb ychwanegol pellach i’r pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny yn ystod y flwyddyn. Byddai hwn yn cael ei gyllido o’r gronfa wrth gefn, ac felly yn cwtogi balans y gronfa i ariannu costau unwaith am byth eraill yn y dyfodol.

Swyddfa Rheoli Rhaglen - £864,110 (Senario 1) a £1,468,420 (Senario 2)

4.7 Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn seiliedig ar bum swydd lawn amser (Senario 1) ac ugain swydd lawn amser (Senario 2). Mae manylion pellach am y strwythur staffio ar gael yn yr adroddiad ESF a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 24 Ionawr 2020.

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s25697/Eitem%207%20-%20Adroddiad%20ESF.pdf?LLL=1

4.8 Mae'r Gyllideb Gwariant Gweithwyr wedi'i gosod ar y dybiaeth y rhoddir y cynnydd chwyddiant o 2% i gyflogau Llywodraeth Leol yn 2020/21, fodd bynnag, mae hyn yn destun trafodaethau parhaus.

4.9 Yn ogystal, mae'n cynnwys cyllideb ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth; Hyfforddiant; Ymgysylltu a Chyfarfodydd; Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; Cyflenwadau a Gwasanaethau; Eiddo. Hefyd, mae'r cyfraniad arian cyfatebol tuag at y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol gan y chwe Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys, ynghyd â'r costau Trafnidiaeth sy'n gymwys ar gyfer Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru).

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £139,920 (Senario 1) a £155,770 (Senario 2)

4.10 Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol, Cefnogaeth Gorfforaethol a Thechnoleg Gwybodaeth.

4.11 Caiff ystod y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cynnwys yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth unigol a gaiff eu cytuno gyda phob Adran.

4.12 Ar y cyfan, mae cyllideb Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol yn debyg i 2019/20, ond mae Senario 2 yn cynnwys y costau uwch sy'n ymwneud â'r Grant ESF a'r cynnydd cyfatebol mewn niferoedd staff.

Y Cyd-bwyllgor

4.13 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol a fydd ei hangen yn bennaf wrth ddrafftio Cytundeb Llywodraethu 2 a chydag achosion busnes y rhaglenni/prosiectau unigol.

4.14 Ymgynghoriaeth Trysorlys - £10,000

Bydd angen mewnbwn gan Ymgynghoriaeth Trysorlys Allanol yng nghyswllt adnabod a dosbarthu costau tybiannol er mwyn ymdrin â llif arian negyddol ac ati.

4.15 Ffi Archwilio Allanol - £1,500

Bydd Cyfrifon y Cyd-bwyllgor yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd, ac mae amcan gyllideb wedi'i seilio ar y ffioedd y mae Cyd-bwyllgorau bach tebyg eraill sy'n cynhyrchu adroddiad blynyddol wedi'i defnyddio.

4.16 Bwrdd Cyflawni Busnes - £20,000

Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 17 Mai 2019, cymeradwywyd cyfraniad blynyddol o hyd at £20,000 er mwyn cefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

Cyfraniadau Ariannu

4.17 Cyfraniadau Partneriaid (GA1) - (£400,000)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 1 a Chytundeb Llywodraethu 2 arfaethedig, mae Cyllideb 2020/21 yn cynnwys cyfraniad o £50,000 gan y chwe Chyngor a £25,000 gan y pedwar Ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £400,000. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi aros yr un peth ers 2019/20, heb unrhyw gynnydd chwyddiannol er mwyn adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno'n flaenorol fel sail er mwyn i'r partneriaid unigol osod eu cyllidebau ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, bydd angen i gyfraniadau'r partneriaid gynyddu yng nghyllidebau'r dyfodol i adlewyrchu'r chwyddiant ar gyflogau.

4.18 Cyfraniadau Partneriaid (Eraill) - (£240,000)

Mae'r gyllideb wedi'i sefydlu gyda'r dybiaeth y bydd y cyfraniadau hanesyddol, sef cyfraniad cyfartal gan bob un o'r chwe Chyngor, yn parhau yn 2020/21. Ariannir cyllideb y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol o £42,290 o'r cyfraniadau hyn.

4.19 Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) - (£109,890)

Mae grant trafnidiaeth gyhoeddus o £155,000 wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac amcangyfrifir y bydd £109,890 ar ôl i'w hawlio o'r grant yn ystod 2020/21.

4.20 Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) - (£651,330)

Os caiff y cais Grant ESF ei gymeradwyo, gellid hawlio £2.9m ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mehefin 2023, gyda chostau staff 2020/21 yn denu £651,330 o'r arian grant hwn. Pe byddai'n llwyddiannus, gellid hawlio costau'n ôl-weithredol o fis Gorffennaf 2018 ymlaen hefyd.

Cronfa Wrth Gefn wedi'i Glustnodi - (£303,640) (Senario 1) a (£272,470) (Senario 2)

4.21 Mae'r Adroddiad Adolygiad Trydydd Chwarter a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 24 Ionawr 2020 yn rhagamcanu gweddill o £117,424 i'w drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd 2019/20, i roi amcangyfrif o £453,637 yn weddill i fod ar gael yn y dyfodol.

4.22 Mae cyllideb Senario 1 yn defnyddio £303,640 (£109,480 i gydbwyso'r gyllideb sylfaenol a £194,160 i ariannu gwariant unwaith ac am byth) sydd yn gadael gweddill o £150,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

4.23 Mae cyllideb Senario 2 yn defnyddio £272,470 i ariannu gwariant unwaith ac am byth sy'n gadael gweddill o £358,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol (yn cynnwys y grant ESF wedi'i ôl-ddyddio).

**5. Y Cyd-destun Llywodraethol**

5.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Llywodraethu 1, a Chytundeb Llywodraethu 2 arfaethedig, mae angen i'r Corff Atebol baratoi'r gyllideb flynyddol ac mae angen i'r Cyd-bwyllgor gytuno iddi.

5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyliad bod lefel yr adnoddau a glustnodir yn cael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth fod ar gael.

5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Rhaglen a'r Grŵp Gweithredol. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Awst 2020 a Thachwedd 2020 i'w cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

**6. Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd**

6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1a ac 1b, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 6 Mawrth 2020.

**7. Atodiadau**

Atodiad 1a - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 heb arian Grant ESF.

Atodiad 1b - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 gydag arian Grant ESF.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Rwy'n nodi y cais i ddefnyddio elfen o'r arian wrth gefn ar gyfer cynnal momentwm. Mae'r rhesymeg ar gyfer hyn yn cael ei amlinellu yn yr adroddiad er caniatau i'r Bwrdd ddod i benderfyniad. Rwy'n cytuno a ffurf y dirprwyo fydd yn rhoi sicrwydd ynglyn a defnydd yr adnodd.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.